

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad cyhoeddi: 01 Awst 2023

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH

Teitl: Tynnu yn ôl WHC 2019/042 ynghylch Datganiadau Ansawdd Blynyddol

Dyddiad dod i ben / Adolygu 31 Mawrth 2024

I'w weithredu gan:

Byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG,
awdurdodau iechyd arbennig, darparwyr gofal
sylfaenol.

Angen gweithredu erbyn: 01 Awst 2023

Anfonydd:

Yr Athro Chris Jones, Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol, GIG Cymru a Dirprwy Brif Swyddog Meddygol
Sue Tranka, Prif Swyddog Nyrsio, Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru

Enw(au) Cyswilt GIGC Llywodraeth Cymru:

Aashna Patel, Ansawdd a Diogelwch, y Gyfarwyddiaeth Ansawdd a Nyrsio. E-bost:
AnsawddANyrsio@llyw.cymru

Dogfen(nau) amgaeedig: Dim



Yr Athro/Professor Chris Jones
Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol, GIG Cymru
a Dirprwy Brif Swyddog Meddygol
National Clinical Director, NHS Wales and Deputy Chief Medical Officer

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gillian Knight
Prif Swyddog Nyrsio
Chief Nursing Officer
Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru
Nurse Director NHS Wales

01 Awst 2023

Annwyl gyfeillion

Daeth y ddyletswydd ansawdd i rym ym mis Ebrill 2023, fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Bwriad y ddyletswydd yw sicrhau bod penderfyniadau cadarnach yn cael eu gwneud, a bod camau gweithredu a gwelliannau yn cael eu cyflawni ar draws y system gyfan, er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'n poblogaeth.

Mae un o ofynion pwysig y ddyletswydd ansawdd yn ymwneud â mecanweithiau adrodd. Mae adran 9 o [ganllawiau statudol y ddyletswydd ansawdd](#) yn disgrifio'r gofynion adrodd ar ansawdd sydd bellach ar waith.

O ganlyniad, nid yw'n ofynnol bellach i sefydliadau'r GIG lunio Datganiad Ansawdd Blynyddol fel y disgrifir yn WHC 2019/042, sy'n cael ei dynnu'n ôl ar unwaith.

O ran y gofynion adrodd ar ansawdd o dan y ddyletswydd newydd, dylai cyrff y GIG nodi'r crynodeb canlynol o negeseuon allweddol y canllawiau statudol.

- Rhaid i Weinidogion Cymru a chyrff y GIG gyhoeddi adroddiad ansawdd blynyddol sy'n nodi'r camau y maent wedi'u cymryd i sicrhau gwasanaethau iechyd o ansawdd gwell.
- Rhaid i'r adroddiad ansawdd blynyddol gynnwys asesiad sy'n nodi i ba raddau y gwelwyd gwelliannau yn y canlyniadau a gyflawnir.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Rhaid i'r adroddiadau ansawdd blynyddol ddangos, gan fod yn gwbl dryloyw, y cynnydd a'r heriau ar y daith ansawdd. Dylid nodi unrhyw flaenoriaethau ansawdd sydd i ddod a sut y bydd y rhain yn cael eu monitro.
- Rhaid i'r adroddiad ansawdd blynyddol asesu unrhyw welliannau yn y canlyniadau.
- Dylai'r adroddiad ansawdd blynyddol ddangos sut y cafodd penderfyniadau strategol eu gwneud yn seiliedig ar y ddyletswydd ansawdd.
- Dylai'r adroddiad ansawdd blynyddol amlinellu'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r hyn a ddysgwyd a disgrifio sut y cafodd hyn ei rannu.
- Dylid llunio'r adroddiad ansawdd blynyddol cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol i gyd-fynd â'r Adroddiad Blynyddol a phroses y Cyfrifon.
- Yn ogystal ag adrodd ar ansawdd yn flynyddol, anogir cyrff y GIG i ddatblygu proses adrodd 'ar waith bob amser' pan fyddant yn casglu, monitro ac yn rhannu gwybodaeth am ansawdd gyda'u poblogaeth ar adegau rheolaidd yn ystod y flwyddyn.
- Mae adrodd 'ar waith bob amser' yn hybu cyrff i ddefnyddio gwybodaeth yn rheolaidd wrth fynd ati i wneud penderfyniadau a gwella ansawdd. Mae'n cefnogi cydnabod a rhannu arferion da ac mae'n golygu bod modd uwchgyfeirio ac ymyrryd yn gynnar pan fo angen gweithredu.
- Cydnabyddir bod data i gefnogi'r broses adrodd ar ansawdd yn faes sy'n datblygu a bydd yn cymryd amser cyn y bydd cyfres o fesurau canlyniadau ar waith. Felly, bydd angen dull hyblyg o ddefnyddio dangosyddion a mesurau.
- Mae'n hanfodol bwysig bod cyrff y GIG yn mynd ati i ymgysylltu â'u poblogaeth i sicrhau bod llais y boblogaeth yn cael ei glywed ac i hybu gweithio mewn partneriaeth i gyflawni nodau'r ddyletswydd ansawdd.

Mae'r Rhaglen Ansawdd a Diogelwch genedlaethol yn parhau i weithio gyda phartneriaid cenedlaethol ar ddatblygu dangosyddion a mesurau sy'n canolbwyntio ar ansawdd ac yn darparu cymorth i gyrff y GIG ynghylch adrodd ar ansawdd drwy'r Grŵp Gweithredu Ansawdd.

Yn gywir

YR ATHRO/PROFESSOR CHRIS JONES



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Silvia. Nyst

**PRIF SWYDDOG NYRSIO
CYFARWYDDWR NYRSIO GIG CYMRU
CHIEF NURSING OFFICER
NURSE DIRECTOR NHS WALES**